# ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

## CYNNIG Y DDARPARIAETH ADDYSG GATHOLIG

- Cau Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony yn Saltney erbyn 31 Awst 2027.
- Uno Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant yn yr Wyddgrug, Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair yn y Fflint ac Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn yn y Fflint.
- Byddai'r uno'n golygu:
  - y byddai'r ysgolion unigol yn cau erbyn 31 Awst 2027;
  - y byddai ysgol Gatholig wirfoddol a gynorthwyir 3-18 oed cyfrwng Saesneg newydd gydag enw a rhif ysgol newydd, yn agor ar 1 Medi 2027;
  - y byddai'r ysgol newydd yn gweithredu dros y tri safle presennol nes bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu (rhagwelir Medi 2030).

**Gwanwyn - Haf 2026**

## RHAN A. CYFLWYNIAD

Yn Sir y Fflint mae chwe ysgol wedi eu categoreiddio fel ysgolion Catholig gwirfoddol a gynorthwyir cyfrwng Saesneg:

- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Dewi Sant, yr Wyddgrug.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair, y Fflint.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Santes Gwenffrewi, Treffynnon.
- Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Hybarch Edward Morgan, Shotton.
- Ysgol Uwchradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Richard Gwyn, y Fflint

At ddibenion y ddogfen hon, cyfeirir at yr ysgolion gan ddefnyddio eu henw unigryw byrrach. Er enghraifft, cyfeirir at Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Anthony, Saltney, fel Ysgol Sant Anthony.

Mae ysgolion Sant Anthony, Dewi Sant, y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn cael eu cynnwys yn y cynnig hwn a byddant yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol os bydd yn cael ei roi ar waith.

Mae'r ddogfen hon yn cefnogi'r ddogfen Ymgynghoriad Statudol y dylai ymgyngoreion ei hystyried i gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori.

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Catholic-Education-Proposal.aspx

Bydd y cyfnod ymgynghori yn agor ddydd Mawrth **16 Mehefin 2026** ac yn dod i ben am 11.59pm ddydd Mercher **29 Gorffennaf 2026**.

Y ffigyrau, ystadegau a deunydd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw'r rhai mwyaf cywir sydd ar gael adeg paratoi a chyhoeddi.

Mae Asesiadau o Effaith yn ddogfennau gweithio a fydd yn cael eu diweddaru yn dilyn gwybodaeth ac adborth o'r broses ymgynghori.

## RHAN B. PWRPAS YR ASESIAD

Dan Safonau'r Gymraeg, rhaid i ddogfennau ymgynghori ar bolisi (safonau rhif 88 -92) ystyried effaith penderfyniad polisi ar y Gymraeg ac asesiad o'r effaith ar y Gymraeg. Nid yw'r ddyletswydd hon yn gyfyngedig i gynigion yn ymwneud ag ysgolion Cymraeg, ond yn hytrach pob ysgol, waeth beth fo'u categori ieithyddol. Adlewyrchir hyn hefyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026 newydd, ac oherwydd pwysigrwydd y sector Addysg wrth greu siaradwyr Cymraeg newydd, dylai'r gwaith o gynllunio a datblygu *pob* cynnig i ad-drefnu ysgolion adlewyrchu uchelgeisiau Cymraeg 2050 a chefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn cynnwys gofynion asesiad effaith ar y Gymraeg fel y cânt eu diffinio yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2026.

## RHAN C. Y BROSES YMGYNGHORI

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2026 newydd, paragraff 1.10 yn nodi "***Rhaid** i'r achos a baratoir gan y rhai sy'n cyflwyno cynigion ddangos effaith y cynigion ar y Gymraeg. **Rhaid** cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg ar gyfer pob cynnig.*"

Mae ein dogfen ymgynghori yn gwahodd safbwyntiau ar y cynnig hwn. Fel rhan o'r cwestiynau ymgynghori, mae'r Cyngor hefyd yn ceisio eich barn ar sut mae ymgyngoreion yn teimlo y gallai'r cynnig effeithio ar y Gymraeg ac unrhyw ddatblygiad posibl yn y maes hwn.

Yn yr arolwg, hoffem gael eich barn ar yr effaith y bydd y cynnig hwn yn ei gael ar y Gymraeg, yn arbennig o ran:

- Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; ac
- Osgoi trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi…?

1. Cynyddu nifer y bobl sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg
2. Defnyddio gwasanaethau Cymraeg
3. Cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol
4. Cymunedau Cymraeg eu hiaith
5. Trin y Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg
6. Sut allwn ni gynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r effeithiau negyddol?

Mae asesiadau o effaith yn ddogfennau gweithredol a gellir eu diweddaru drwy gydol y broses statudol. Bydd adborth gan ymgyngoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael ei ddefnyddio i lywio'r asesiadau o effaith ymhellach.

Prif nod y safonau llunio polisi yw sicrhau bod sefydliadau'n rhoi ystyriaeth gydwybodol i'r Gymraeg wrth benderfynu sut y byddant yn cyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus.

Mae ein holl ddogfennau o ran yr ymgynghoriad hwn wedi'u cyhoeddi ar ffurf copi caled, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os bydd arnoch angen copi papur o'r ddogfen hon, neu gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol, er enghraifft Braille neu brint bras, neu os oes arnoch chi angen cymorth i ddehongli'r ddogfen mewn iaith arall, cysylltwch â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion ar **01352 704014 neu 01352 704018 neu 01352 702129**, neu dros e-bost **CatholicEducationConsultation@flintshire.gov.uk**

## RHAN D. STRATEGAETH CYMRAEG 2050

Dyma strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a rhaid ei hystyried yn briodol mewn unrhyw gynigion i ad-drefnu ysgolion. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys yn un o'r saith nod lles yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae 'Cymraeg 2050' wedi'i seilio ar dair thema strategol:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol o ran isadeiledd a chyd-destun

Mae'n bosibl y bydd pob un o'r themâu hyn yn berthnasol, gan ei bod yn bosibl y bydd y cynnig i gau dwy ysgol cyfrwng Saesneg a sefydlu ysgol cyfrwng Saesneg ar gampws mawr yn effeithio ar yr ysgolion Cymraeg yn yr ardaloedd hyn, er bod pob un o'r ysgolion yn y cynnig hwn yn rhai Catholig.

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf

# RHAN E. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG (CSCA) 2022-2032

Mae Cyngor Sir y Fflint yn credu bod y Gymraeg yn eiddo i bawb. Mae Cynllun Strategol Addysg y Gymraeg yn Sir y Fflint yn offeryn strategol hirdymor i ni gyfrannu at Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a chynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg.

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl mewn ysgolion ac ymestyn y sgiliau Cymraeg hynny i'r gymuned ehangach, gyda'r nod o greu sir a gwlad sy'n cynyddu i fod yn fwy dwyieithog. Rydym ni’n ceisio cael pobl o bob oedran i wella eu sgiliau Cymraeg a bod ganddynt y gallu i ddefnyddio'r rhain yn hyderus gyda’u teuluoedd ac yn eu mannau dysgu.

Rydym yn ymroddedig i gefnogi, ymestyn a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn y gymuned gyfan a chynyddu nifer a chanran y disgyblion sy’n cael addysg cyfrwng Cymraeg, yn unol â ‘Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg’ Llywodraeth Cymru, i ddatblygu dysgwyr sy’n gwbl ddwyieithog (h.y. yn rhugl yn y Gymraeg a’r Saesneg).

Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yw ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella cynllunio ar gyfer darpariaeth addysg Cyfrwng Cymraeg yn ein hardal.

Y prif egwyddorion yw:

- Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol a’r blynyddoedd cynnar ar gael yn hawdd ar draws yr awdurdod i gefnogi ac annog rhieni/gofalwyr i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant.
- Mae addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bob dysgwr o fewn pellter teithio rhesymol i'w cartref (yn unol â’n dyletswyddau a nodwyd o dan adran 10 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008.)
- Mae pob dysgwr yn y sector cyfrwng Cymraeg yn cael eu hannog i drosglwyddo’n llwyddiannus ar bob pwynt pontio → e.e. grwpiau teulu/plant bach → cylch chwarae → addysg gynnar → dosbarth meithrin rhan amser → ysgol gynradd → ysgol uwchradd.
- Mae dysgwyr Cymraeg iaith gyntaf mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (cynradd ac uwchradd) yn cyflawni'r canlyniadau uchaf posibl yn y Gymraeg.
- Mae dysgwyr Cymraeg ail iaith o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg yn cael eu cefnogi a'u hannog i gael mynediad at addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg trwy raglen drochi bwrpasol.
- Mae dysgwyr Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (cynradd ac uwchradd) yn cyflawni'r canlyniadau uchaf posibl yn y Gymraeg.
- Mae cydweithio effeithiol yn bodoli gyda phartneriaid, asiantaethau a gwasanaethau eraill i hyrwyddo a chynyddu dwyieithrwydd mewn cyd-destun addysgol a chymdeithasol.
- Mae dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cyfle ieithyddol cyfartal.
- Mae pob dysgwr yn dod yn hyfedr yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Mae cynnydd ac ymrwymiad i ddatblygu'r Gymraeg ar draws pob agwedd o’r Cyngor yn cael ei ddathlu.

Gellir gweld CSCA 2022-2032 yma:

https://www.flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/Welsh-in-Education/Flintshire-WELSH-IN-EDUCATION-STRATEGIC-PLAN-2022-2032.pdf

## RHAN F. Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (TAN 20) AC ARDALOEDD O SENSITIFRWYDD IEITHYDDOL

Mae TAN 20 yn cyfeirio at ganllaw Llywodraeth Cymru ar gynllunio a'r Gymraeg. Mae Cyngor Sir y Fflint yn defnyddio'r canllaw hwn i sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg yn y gymuned. Mae rhan o strategaeth Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor yn cydnabod yr angen am ddatblygiad newydd i gefnogi a chynnal hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol lleol.

Fel awdurdod lleol, rydym yn cydnabod bod gennym gyfrifoldeb a dyletswydd fel arweinydd cymunedol i hyrwyddo, cefnogi a diogelu'r Gymraeg er budd cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol.

https://www.flintshire.gov.uk/en/PDFFiles/Planning/Evidence-Base-Documents/Background-Papers/LDP-EBD-BP12-Welsh-Language.pdf

**Tabl: Gwybodaeth o'r Gymraeg (2021)**

| | Sir y Fflint | | Cymru |
|---|---|---|---|
| | Cyfrifiad 2021 | | Cyfrifiad 2021 |
| | Nifer | % | % |
| Pawb dros 3 oed | 155,000 | - | - |
| Dim gwybodaeth o'r Gymraeg | 126,015 | 81.3% | 74.8% |
| Yn deall Cymraeg llafar yn unig | 7,750 | 5% | 5.2% |
| Pawb sy'n siarad Cymraeg | 17,980 | 11.6% | 17.8% |
| Yn siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg | 21,235 | 13.7% | 20% |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021

Yn ôl Cyfrifiad 2011, roedd 14.4% o boblogaeth Sir y Fflint yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r tabl uchod yn dangos bod dirywiad wedi bod yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros gyfnod o 10 mlynedd hyd at Gyfrifiad 2021. Fodd bynnag, mae nifer y myfyrwyr sy'n mynychu addysg Gymraeg yn cynyddu a rhagwelir y bydd hynny'n parhau.

Diffinnir sensitifrwydd ieithyddol yn Sir y Fflint gan berthynas gymhleth, sy'n esblygu, rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, sydd dan ddylanwad cryf ei lleoliad fel sir ar y ffin. Er bod canran y siaradwyr Cymraeg (11.6% yn 2021) yn is yn Sir y Fflint na chyfartaledd Cymru, mae'r Cyngor yn gwneud ymdrech gref, ragweithiol i hyrwyddo'r iaith a meithrin amgylchedd dwyieithog croesawgar.

Mewn rhai ardaloedd o'r Sir mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, ond mae'n llawer is mewn ardaloedd eraill. Dengys data Cyfrifiad 2021 bod y Gymraeg yn iaith leiafrifol ym mhob cymuned, ond mae ar ei chryfaf yn ardal yr Wyddgrug, ynghyd â chymunedau llai, mwy gwledig eraill. Yn wir, mewn rhai achosion mae mwy'n defnyddio'r Gymraeg na'r cyfartaledd cenedlaethol. Gwelir y niferoedd lleiaf mewn rhannau o Saltney ar y ffin â Lloegr.

Fel yr amlinellir yn Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg 2025 -2030 y Cyngor, ein nod dros y pum mlynedd nesaf yw cynyddu nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn siarad Cymraeg i 15%. Y

weledigaeth yw datblygu sir hollol ddwyieithog a chefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050.

https://www.siryfflint.gov.uk/cy/PDFFiles/Welsh-Language/Five-Year-Welsh-Language-Promotion-Strategy-2025-2030.pdf

Mae addysg cyfrwng Cymraeg, boed ar ffurf darpariaeth cyfrwng Cymraeg lawn drwy ysgolion Cymraeg, neu addysgu'r Gymraeg fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, yn cefnogi'r nod hwn yn uniongyrchol ac yn cysylltu'r strategaeth hon yn gynhenid â'r Cynllun Strategol Addysg.

## RHAN G. ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG YN SIR Y FFLINT

Yn Sir y Fflint, mae pum ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, ac un ysgol uwchradd:

Cynradd

- Ysgol Gymraeg Glanrafon, Yr Wyddgrug – yn cynnwys Adnodd Generig CA2
- Ysgol Gymraeg Terrig, Treuddyn
- Ysgol Gymraeg Gwenffrwd, Treffynnon
- Ysgol Gymraeg Mornant, Gwespyr Picton
- Ysgol Gymraeg Croes Atti, Y Fflint a Shotton

Uwchradd

- Ysgol Gymraeg Maes Garmon, Yr Wyddgrug

Mae Ysgol Gynradd Dewi Sant yn agos at y ddwy Ysgol Gynradd ac Uwchradd cyfrwng Cymraeg yn ardal yr Wyddgrug ac mae'r Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn ardal y Fflint, ble mae Ysgol Croes Atti. Mae'r ysgolion Cymraeg yn ardaloedd yr Wyddgrug a'r Fflint wedi cael buddsoddiad sylweddol. Yr ysgol Gymraeg agosaf at Sant Anthony yw safle ategol Ysgol Croes Atti yn Shotton.

## RHAN H. BUDDSODDI MEWN ADDYSG CYFRWNG CYMRAEG

Dros y blynyddoedd diwethaf ac ar gyfer y dyfodol, mae'r Cyngor yn ymdrechu i ehangu a buddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y Sir er mwyn sicrhau bod digon o leoedd i ddisgyblion Sir y Fflint gael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg os ydynt am ei gael.

Yn ddiweddar, rydym wedi trosglwyddo adeilad newydd Ysgol Croes Atti yn y Fflint. Cyfanswm y buddsoddiad ar gyfer Ysgol Gymraeg yn ardal y Fflint yn lle adeilad presennol Ysgol Croes Atti oedd £13.5 miliwn. Mae gan yr ysgol adain gymunedol ar gyfer gofal y Blynyddoedd Cynnar a'r rhaglen DROCHI.

Cafodd yr ysgol gynradd Gymraeg yn yr Wyddgrug, Ysgol Glanrafon fuddsoddiad o £4 miliwn i gynyddu addysg Gymraeg yn yr ardal a darparu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg i'r gymuned. Roedd y prosiect yn cynnwys adeiladu estyniad chwe dosbarth, prif fynedfa newydd ac aildrefnu'r ysgol bresennol. Cafodd darpariaeth cyn-ysgol ychwanegol wedi'i adeiladu'n bwrpasol hefyd ei osod i ddarparu gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar yn Gymraeg. Cafodd yr adeilad ei drosglwyddo ym mis Mai 2022.

Mae gan Sir y Fflint adnodd cyffredinol i blant cynradd ag ADY yn Ysgol Glanrafon, yr Wyddgrug. Mae'r adnodd hwn yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ag ystod o anghenion dysgu.

Dirprwywyd buddsoddiad yn y cyllid hefyd i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddarparu adnoddau ychwanegol i ddisgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 3/4/5. Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae rhaglen drochi bwrpasol ar gyfer disgyblion o ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n dewis trosglwyddo i'n hysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg (Trochi), yr ydym yn ei datblygu fel rhan o ganlyniadau'r CSCA.

Mae Grant Cyfalaf pellach wedi'i gyflwyno ar gyfer yr ysgol uwchradd i wella'r lleoedd TROCHI / ADY a lleoedd Ôl 16.

Fel rhan o'r Rhaglen Amlinellol Strategol ar gyfer cam nesaf cyllid isadeiledd strategol y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, rydym wedi nodi un prosiect yn y rhaglen waith gyfredol ar gyfer addysg Cyfrwng Cymraeg.

Ein cynlluniau twf cyfrwng Cymraeg yn y rhaglen hon yw ysgol ardal cyfrwng Cymraeg newydd wedi'i lleoli yn ardal Bwcle/Mynydd Isa. Bydd y prosiect hwn yn creu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd gyda lle i 150 o ddisgyblion llawn amser, ynghyd â lle i 30 mewn dosbarth meithrin i sicrhau darpariaeth gofal plant estynedig. Mae'r cynnig yn bwriadu cynnwys integreiddio Mudiad Meithrin ar y safle a bydd darpariaeth gychwynnol dosbarth Meithrin a dosbarth Derbyn.

Fel y nodwyd, mae'r Cyngor wedi buddsoddi arian sylweddol mewn addysg cyfrwng Cymraeg ers 2020, gan gynnwys gwario £20 miliwn ar un ysgol gynradd, rhoi estyniadau ar un arall ac adnewyddu un arall eto. Yn ogystal â hynny, mae cyllid wedi darparu nifer o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg i hwyluso mynediad at y Gymraeg i blant ifanc. Mae twf yn nifer y myfyrwyr sy'n mynychu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a rhagwelir y bydd hyn yn parhau dros y 5 mlynedd nesaf.

Bydd cyfleoedd pellach i fuddsoddi mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu hystyried yn unol ag amcanion strategol y Cyngor.

# RHAN I. CYFRANNU AT Y CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Gan fod yr addysg ym mhob un o'r ysgolion Catholig sy'n rhan o'r cynnig hwn yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Saesneg, mae nifer o dargedau yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i gynyddu lefelau cyrhaeddiad disgyblion y mae'r Gymraeg yn ail iaith iddynt fel rhan o Ganlyniad 5…

***Canlyniad 5:*** *Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol*

*Er mwyn cyflawni'r canlyniad hwn byddwn yn:*

*Cefnogi cyrff llywodraethu ysgolion i ddenu, cynnal a datblygu staff sydd wedi ymrwymo i ddysgu neu wella eu sgiliau Cymraeg*

- Parhau i hyrwyddo'r Siarter Iaith i wella a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg y tu allan i ddysgu ffurfiol, ei hymgorffori ym mhobl ifanc heddiw fel eu bod yn cynnal y defnydd o'r iaith yn y dyfodol ac yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant pan fyddant yn dod yn rhieni. Athrawon ymgynghorol ar gyfer y Gymraeg a chydlynydd Siarter Iaith i gydweithio gydag ysgolion mewn perthynas â throsglwyddo i'r fframwaith cenedlaethol newydd ar gyfer datblygu defnydd anffurfiol o'r Gymraeg.

- Cydweithio gyda darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon mewn perthynas â hyfforddi athrawon gyda sgiliau Cymraeg yn seiliedig ar dargedau cenedlaethol a lleol Cymraeg 2050
- Cydweithio gydag awdurdodau cyfagos
- Cydweithio gydag awdurdodau eraill yng Ngrŵp 4 (gyda'r un targed gan Lywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg); Pen-y-Bont Ar Ogwr, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd

Yn ogystal â darparu cyfleoedd wedi'u mapio'n glir o ran y cyfleoedd sydd ar gael i blant oedran ysgol i ddefnyddio eu Cymraeg drwy weithio gydag asiantaethau eraill (Gwasanaethau Ieuenctid yr ALl, yr Urdd, Menter Iaith Fflint a Wrecsam ac eraill e.e. Capel Bethesda).

**Safonau'r Gymraeg yn yr Ysgolion Catholig yn Sir y Fflint**

Mae ysgolion Sant Anthony, Dewi Sant, y Santes Fair a Sant Richard Gwyn yn cael eu cynnwys yn y cynnig hwn a byddant yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol os bydd yn cael ei roi ar waith.

Mae'n rhesymol nodi Santes Gwenffrewi a'r Hybarch Edward Morgan fel ysgolion a fyddai'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig. Hefyd, gallai'r cynnig olygu y bydd disgyblion, yn enwedig yn ardal Saltney yn trosglwyddo i ysgolion eraill dros y ffin â Lloegr. Gallai hyn effeithio ar Ysgol Gatholig cyfrwng Saesneg St Clare's yn Lache, Caer (CH4 8HX).

Rhoddir gwybodaeth isod am Safonau'r Gymraeg yn y rhwydwaith o ysgolion Catholig, a gymerwyd o arolygon mwyaf diweddar yr ysgolion gan Estyn. Mae pob un o'r ysgolion Catholig yn ysgolion cyfrwng Saesneg ac mae'r Gymraeg yn cael ei dysgu fel ail iaith.

**Ysgol Gatholig Dewi Sant yr Wyddgrug - Estyn Mawrth 2020**

*Yn y cyfnod sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu Cymraeg llafar ac maen nhw'n defnyddio'r Gymraeg yn hyderus fel rhan o drefn y dosbarth. Maen nhw'n gofyn cwestiynau syml ac yn ymateb iddynt yn annibynnol gan ddilyn patrymau sylfaenol, er enghraifft, i siarad amdanynt eu hunain neu i ddisgrifio'r tywydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynau cyfarwydd, er enghraifft, wrth rannu gwybodaeth bersonol. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn darllen testun byr yn gywir ac yn ysgrifennu'n dda gan ddefnyddio geirfa gyfarwydd a phatrymau brawddegau, er enghraifft, wrth ysgrifennu am y profiad o fod yn faciwî. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg llafar yn ddigon hyderus mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm ac o gwmpas yr ysgol. Maen hyn yn cyfyngu ar eu cynnydd.*

**Ysgol Gynradd Sant Anthony, yr Wyddgrug - Estyn Ionawr 2019**

*Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae llawer yn gwneud cynnydd araf wrth ddatblygu eu sgiliau llafar Cymraeg. Mae'r mwyafrif yn ymateb i gyfarwyddiadau ac yn dangos dealltwriaeth resymol o'r Gymraeg a ddefnyddir gan yr athrawon mewn gwersi Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith mewn pynciau eraill ac mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol yn yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae sgiliau darllen ac ysgrifennu mwyafrif y plant yn Gymraeg ar gam datblygu cynnar.*

**Ysgol Gynradd y Santes Fair, y Fflint - Estyn Tachwedd 2025**

*Yn yr ysgol gyfan, mae mwyafrif y staff yn modelu a darparu'r Gymraeg ac yn hyrwyddo diwylliant Cymru yn effeithiol drwy weithgareddau difyr. Mae'r disgyblion ieuengaf yn*

*ymateb yn dda i gyfarwyddiadau sylfaenol yn Gymraeg. Mae athrawon yn adeiladu ar y profiadau cynnar hyn yn effeithiol ac erbyn Blwyddyn 6, mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o orchmynion a geirfa sy'n gysylltiedig â phynciau'r dosbarth ac maent yn hyderus yn eu Cymraeg achlysurol o amgylch yr ysgol yn ystod gweithgareddau bob dydd neu i gyfarch ymwelwyr.*

**Sant Richard Gwyn, y Fflint - Adroddiad Monitro Dilynol Estyn Chwefror 2026**

***R4 Sicrhau bod gan bob disgybl fynediad llawn at ddarpariaeth i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg***

*Ers yr arolwg craidd, mae'r ysgol wedi cryfhau ei darpariaeth i ddatblygu sgiliau Cymraeg y disgyblion. Mae'r dyraniad o amser cwricwlwm ar gyfer addysgu'r Gymraeg yn gyson o Flwyddyn 7 i 11. Hefyd, mae mwyafrif y disgyblion ym Mlwyddyn 10 ac 11 yn cael eu cofrestru ar gyfer cymhwyster TGAU mewn Cymraeg.*

*Mae'r adran Gymraeg yn amlwg wedi cael ei chryfhau ac mae'r staff wedi gweithio'n fwriadol i gynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu Cymraeg llafar yn y gwersi. Maen nhw wedi gwella'r amgylchedd dysgu i gynnwys arddangosfeydd difyr a waliau dysgu bwriadol, sy'n cefnogi ac annog y disgyblion i ddatblygu a gwella eu sgiliau iaith.*

*Mewn gwersi Cymraeg, mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud, yn ymateb yn briodol i gwestiynau sylfaenol ac yn cymryd rhan yn dda mewn gweithgareddau iaith strwythuredig. Mae'r mwyafrif yn ynganu geiriau'n gywir ac yn dechrau ehangu eu geirfa a chynnal sgyrsiau byrion yn Gymraeg. Fodd bynnag, yn enwedig ymhlith disgyblion hŷn, nid yw eu hyder i siarad wedi datblygu cystal. Maen nhw'n dibynnu ar restrau geirfa ac adnoddau adeiladu brawddegau i gefnogi eu hymatebion.*

*Mae'r ysgol wedi cymryd camau bwriadol i gryfhau'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae gweithgareddau diwylliannol gwerthfawr i ddisgyblion drwy weithgareddau megis ymweliad preswyl â Glan Llyn ac eisteddfod yr ysgol. Mae gan y grŵp llais disgyblion, 'Cyngor Cymraeg' rôl ddylanwadol gynyddol yn y gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg ar draws yr ysgol. Maen nhw wedi llunio llyfryn defnyddiol o eiriau Cymraeg a dywediadau bob dydd i gefnogi staff ac arwain ar fentrau megis 'Diwrnod Shwmae Su'mae'.*

**Ysgol Gynradd Gatholig Santes Gwenffrewi - Arolwg Estyn Mai 2024**

*Mae'r disgyblion yn datblygu eu sgiliau Cymraeg yn effeithiol yn yr ysgol gyfan. Mae llawer o ddisgyblion iau yn ymateb yn frwdfrydig i gwestiynau cyfarwydd, yn disgrifio'r tywydd ac yn archebu eu cinio yn Gymraeg. Ym Mlwyddyn 2, mae'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg i ateb ystod o gwestiynau, o safbwynt aelod o'r teulu brenhinol, gan ddewis yr hyn maen nhw'n ei ffafrio a rhoi rhesymau. Mae disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn sgyrsiau syml ac yn ymateb yn hyderus i ystod o gwestiynau.*

*Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ac yn eu dathlu'n briodol. Mae cyfleoedd i'r disgyblion ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn datblygu'n addas. Mae'r staff yn modelu'r Gymraeg yn dda, gan ddefnyddio cyfarchiadau, dywediadau a chyfarwyddiadau yn ystod y dydd.*

*Mae ystod eang yr ysgol o grwpiau arweinyddiaeth disgyblion yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu sgiliau arwain. Er enghraifft, mae'r Criw Cymraeg yn falch iawn o'u gwaith fel llysgenhadon y Gymraeg, gan hyrwyddo ei defnydd ym mhob rhan o'r ysgol.*

**Ysgol yr Hybarch Edward Morgan, Shotton - Arolwg Estyn Chwefror 2025**

*Mae gan y Gymraeg a diwylliant Cymru broffil uchel yn yr ysgol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gariad y disgyblion at yr iaith. Mae mwyafrif y disgyblion yn mwynhau dysgu Cymraeg ac yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol.*

*Mae angerdd yr ysgol at y Gymraeg yn gryf ac mae'n cael effaith gadarnhaol ar gariad y disgyblion at yr iaith a diwylliant Cymru. Mae bron iawn pob un disgybl yn falch o fod mewn ysgol yng Nghymru. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu sgiliau Cymraeg y disgyblion yn effeithiol ac mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn sicrhau bod cyfleoedd aml i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn y dosbarth ac yn ystod amser egwyl.*

**Gweithgareddau Ychwanegol / Cyfleusterau Cymunedol i ddysgu Cymraeg**

Nid oes gan Ysgol y Santes Fair yn y Fflint unrhyw glwb ar ôl ysgol Cymraeg na chyfleoedd i aelodau allanol o'r gymuned ddysgu Cymraeg na chymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Maen nhw wedi bod yn gwella'r cyfleoedd Cymraeg ar gyfer staff a disgyblion yn ystod oriau ysgol.

Cyn y llynedd, nid oedd ganddynt aelodau o staff a oedd yn rhugl yn y Gymraeg, a nodwyd fel problem. Bu i'w Cydlynydd Cymraeg gwblhau cwrs Cymraeg sabothol dros ddau dymor. Mae'r Cydlynydd yn ôl yn yr ysgol erbyn hyn ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar y ddarpariaeth. Bydd dau athro arall yn cwblhau'r cwrs sabothol fis Medi yma. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd cyllid hefyd i dalu am gwrs Cymraeg ar-lein 100 awr ar gyfer dau athro a chyllid i 10 cymhorthydd gwblhau hyfforddiant Cymraeg 10 awr.

Mae'r ysgol yn cwblhau hyfforddiant rheolaidd gan Dîm Ymgynghorol y Gymraeg ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae pob athro wedi bod ar gyrsiau ar gynllunio Cymraeg o fewn y camau cynnydd. Derbyniodd yr ysgol wobr efydd Cymraeg Campus y llynedd, ac maen nhw rŵan yn edrych ar ennill y wobr arian.

Mae Swyddog Gwasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint yn ymweld dwywaith yr wythnos ag Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn. Mae un ymweliad yn sesiwn grŵp ar gyfer gweithio â myfyrwyr yn Gymraeg ac mae'r llall yn sesiwn alw heibio ar gyfer pob myfyriwr. Mae Owen erbyn hyn yn gweithio gyda'r Criw Cymraeg i hyrwyddo cyfleoedd arweinyddiaeth ymhlith myfyrwyr a gwella defnydd myfyrwyr o'r Gymraeg.

Mae clwb ar ôl ysgol yr Urdd wedi'i gynnal gan roi cyfle i'r myfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn lleoliad anffurfiol. Mae'r sesiwn hon yn cael ei chynnal gan staff yr Urdd, a'i goruchwylio gan staff yr ysgol. Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae rhai myfyrwyr wedi bod yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, gan ddod ymhlith y tri uchaf mewn ambell i gystadleuaeth.

O ran ôl-16 mae modd i fyfyrwyr ddewis cwrs Safon Uwch Cymraeg mewn partneriaeth ag Ysgol Uwchradd y Fflint a Choleg Dewi Sant (ar-lein).

Bydd yr arbenigedd hwn yn fanteisiol i'r campws newydd arfaethedig, gan amlygu buddsoddiad ysgolion Catholig i gynyddu sgiliau Cymraeg. Nid oes yr un ysgol ar hyn o bryd yn cynnig

cyrsiau gweithgareddau Cymraeg cymunedol. Gall cynnwys ystafell gymunedol yn yr adeilad newydd sbarduno cyfleoedd i gynyddu sgiliau Cymraeg yn y gymuned.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cyflogi Swyddog Iaith Gymraeg Cymunedol yn ei Ddarpariaeth Ieuenctid Integredig, sy'n gyfrifol am sefydlu dull cryf a chydlynol o weithredu, hyrwyddo ac ehangu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc yn eu cymunedau.

Yng nghanlyniadau ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer dysgwyr Cymraeg, bydd y Swyddog Iaith Gymraeg ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid Integredig yn: -

- cefnogi datblygiad gwersyll yr Haf sy'n ddwyieithog
- cyflwyno uned Gymraeg fel rhan o wobr Arweinwyr Ifanc
- cefnogi cynlluniau Chwarae'r haf i gyflwyno'r Gymraeg heb effeithio ar hawl y plentyn i chwarae
  - cynhaliwyd Archwiliad y Gymraeg yn ystod Haf 2021 ac mae'r staff yn awyddus i ddefnyddio'r Gymraeg
- cefnogi sefydlu Clwb Ieuenctid Cymraeg yn ardal wledig y gogledd
- creu adnoddau Cymraeg i'n holl glybiau ieuenctid eu defnyddio
- mewn ymgynghoriad â'r tîm Darpariaeth Ieuenctid Integredig, sicrhau bod yr holl waith papur a ddefnyddir gyda'r bobl ifanc yn ddwyieithog
- meithrin perthnasau cryf gyda chyrff hyfforddi i drafod pwysigrwydd y Gymraeg mewn gwaith ieuenctid yma yn Sir y Fflint
- sicrhau bod yr holl staff yn hyderus i gyfeirio pobl ifanc at adnoddau a chefnogaeth addas yn y Gymraeg
- cefnogi ac ailsefydlu Cyngor yr Ifanc Sir y Fflint gydag ethos cwbl ddwyieithog
- arwain ar ddefnyddio'r Gymraeg ar ein platfformau cyfryngau cymdeithasol i sicrhau cydbwysedd cyfartal rhwng y ddwy iaith
- datblygu ac arwain Rhaglen Wirfoddoli newydd sydd â'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn greiddiol iddi. Fel rhan o'r rhaglen byddwn yn ceisio recriwtio pobl ifanc fel Llysgenhadon Cymraeg Cymunedol mewn partneriaeth â Chynghorau Cymuned a'r Gwasanaethau Ieuenctid.

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'i bartneriaid megis Coleg Cambria, yr Urdd a Menter Iaith Fflint a Wrecsam i ddatblygu Amcanion ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, mae'r rhain yn adnoddau gwerthfawr i annog ymgysylltiad uniongyrchol â'r Gymraeg ym mhob cwr o'r Sir. Mae gan yr ysgol Gymraeg newydd yn y Fflint, sy'n agos at safle'r ysgol Gatholig newydd, adain Gymunedol benodol ar gyfer y Gymuned a gofal plant a throchi. Gallai'r ddarpariaeth Gatholig newydd, fydd â'i hardal Gymunedol ei hun o bosibl, gysylltu â'r ysgol i wella eu gweithgareddau cwricwlwm a thu allan i oriau ar gyfer y Gymraeg.

Gyda nodau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg uchod, bydd yn helpu rhieni a dysgwyr gael mynediad at welliannau'n ymwneud â'r iaith yn eu hardaloedd.

## RHAN J. PROFFIL SIARADWYR CYMRAEG YN SIR Y FFLINT

Mae'r map isod yn dangos dosbarthiad daearyddol y canran o siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint o ddata Cyfrifiad 2011. Mae gwahaniaeth clir i'w weld rhwng y wardiau etholiadol yng ngorllewin y sir, sydd â chanran uwch o siaradwyr Cymraeg, a'r rhai i'r dwyrain, yn nes at y ffin â Lloegr. Mae hyn yn berthnasol i'n hystyriaethau gan fod Sant Anthony yn ardal Saltney. Mae'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn mynd drwy Saltney, drwy ganol Boundary Lane. Mae cyfran uchel o'r

preswylwyr yn nodi mai “Saeson” ydynt. Yn Saltney mae’r lefel isaf o siaradwyr Cymraeg yn y sir.

Proffil sgiliau’r Gymraeg Saltney, 3+ oed, cymerwyd o Gyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol


**Yn gallu deall Cymraeg llafar yn unig 2.1%**

**Yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg 6.8%**

**Dim sgiliau Cymraeg 91.1%**

Mae Cynghorau wedi’u grwpio gan Lywodraeth Cymru i wahanol gategorïau yn adlewyrchu’r gwahaniaethau a’r elfennau tebyg rhwng y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd y ffactorau a ystyriwyd wrth grwpio yn cynnwys canran y dysgwyr a addysgir yn Gymraeg mewn ardal; modelau darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a fabwysiadwyd a natur ieithyddol yr ardal.  At y diben hwn mae Sir y Fflint wedi'i gosod yng Ngrŵp 4.

*Grŵp 4: roedd 12% neu lai o blant Blwyddyn 1 yn yr awdurdodau lleol hyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2017/18. Mae dewis rhwng addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn yr awdurdodau lleol hyn.*




Ffynhonnell:  Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

## RHAN K. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU’R DYFODOL (CYMRU) 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae’r Ddeddf yn cefnogi ymdrechion ehangach Llywodraeth Cymru i ddiogelu’r iaith ac mae’n annog gwneud penderfyniadau rhagweithiol, hirdymor i sicrhau ei bod yn goroesi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae cysylltiad annatod rhwng y Gymraeg â phob un o’r 7 nod ac felly â phob agwedd ar waith y Cyngor.  Mae’n cael ei chynnwys yn yr asesiad hwn fel egwyddorion arweiniol ar gyfer gwneud penderfyniadau.





Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy ddilyn y ddolen hon https://futuregenerations.wales/cym/darganfod/cenedlaethaur-dyfodol-cymru/deddf-cenedlaethaur-dyfodol-2015/

Mae asesiad pellach o’n nodau i’w weld yn ein Hasesiad o Effaith Integredig hefyd - dogfen ategol i’r Ymgynghoriad Statudol.

## RHAN L. DATA ARDAL (ARDAL CYNNYRCH EHANGACH HAEN IS) AR AMDDIFADEDD GYDA’R DATA AR SIARADWYR CYMRAEG

Mae’r lefelau amddifadedd yn Sir y Fflint yn is na gweddill Cymru, ac mae’r crynodiad isaf o ardaloedd yn yr hanner mwyaf difreintiedig o Gymru, yn 29%.




Ffigwr 1.1: map o’r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is wedi’i liwio fesul grŵp amddifadedd, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2025

Ffynhonnell: https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-mallc-2025-adroddiad-canlyniadau-mynegai-cyffredinol-html

Mae pocedi lle ceir crynodiad o anghydraddoldeb, yn enwedig mewn ardaloedd o rannau gogleddol y sir yn cynnwys Gogledd Ddwyrain y Fflint.  Wrth gymharu â’r map o siaradwyr Cymraeg yn Adran J, dengys bod llai i siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf

difreintiedig o'r sir, ac i'r rhai yn ardal Saltney, mae eu lleoliad daearyddol ger y ffin â Lloegr hefyd yn ffactor i rai ohonynt.

Mae Polisi Cludiant Ysgol y Cyngor yn cynnwys darpariaeth ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol i gael cludiant am ddim i ysgolion Cyfrwng Cymraeg, yn unol â'r meini prawf pellter a osodwyd yn y Mesur Teithio gan Ddysgwyr, h.y. 2 filltir ar gyfer plant oedran cynradd a 3 milltir ar gyfer uwchradd.

## RHAN M. EFFEITHIAU A MESURAU LLINIARU

Mae safonau'r Gymraeg wrth lunio polisïau yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru ystyried effaith penderfyniadau eu polisïau ar y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, a hyrwyddo'r defnydd ohoni.

Nodir isod asesiad o'r effeithiau tebygol ar unrhyw ysgol neu sefydliad addysgol arall sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion, waeth beth fo categori'r ysgol na chyfrwng y ddarpariaeth.

| **Meini prawf** | **Effaith Bosibl** |
|---|---|
| **Effaith ar ysgolion ar y ffin a cholli disgyblion o'r system addysg Gymraeg** | **Negyddol** |
| **Eglurhad a Chamau Lliniaru** | |
| Mae rhywfaint o blant wedi bod yn mynd o Saltney i ysgolion Catholig yn Swydd Gaer erioed oherwydd ei fod mor agos at y ffin. Mae'n ardal o sensitifrwydd ieithyddol ac mae mesurau'n parhau i hyrwyddo'r iaith ymhlith y gymuned. Byddai cau Sant Anthony yn gallu arwain at golli disgyblion o gwricwlwm Cymru, ac yn lleihau eu cysylltiad â'r Gymraeg, er fel ail iaith, gan fod ysgol gynradd Gatholig yn nes na'r dewis arall agosaf yn Sir y Fflint.<br>Yn amlach na pheidio, mae rhieni'n dewis ysgolion Catholig oherwydd elfen ffydd yr addysg. Gallai buddsoddiad mawr yn y rhwydwaith Catholig gadw mwy o blant yn rhwydwaith Sir y Fflint o'r ysgolion hyn, ac felly yng nghwricwlwm Cymru, yn y dyfodol.<br>Yn ychwanegol at ei rwymedigaethau statudol, mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o oedran gorfodol i'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf, lle mae cofrestru ar gyfer yr ysgol ar sail enwad, yn amodol ar y meini prawf pellter. (Gellir gofyn am dystiolaeth addas o ymlyniad wrth ffydd yr ysgol megis tystysgrif bedydd neu lythyr gan offeiriad.)<br>Byddai'r ysgol newydd arfaethedig a'r Esgobaeth yn cael eu hannog i weithio gyda chymunedau lleol i hyrwyddo perthnasedd a phwysigrwydd aros mewn ysgolion yng Nghymru a'r cyfleoedd sydd ar gael wrth ddysgu Cymraeg. | |
| **Meini prawf** | **Effaith Bosibl** |
| **Effaith ar yr ysgolion Cyfrwng Cymraeg yn yr ardaloedd a effeithir gan y cynnig** | **Niwtral** |
| **Eglurhad a Chamau Lliniaru** | |
| Mae'r ysgol Gymraeg yn ardal y Fflint - Ysgol Croes Atti wedi cael adeilad newydd gwerth £13.5 miliwn yn ddiweddar mewn datblygiad tai newydd mawr yn ardal y Fflint. Mae'r prosiect hwn yn cynnig adeiladu ysgol newydd ar safle presennol y ddarpariaeth Gatholig yn y Fflint. Mae dewis o ddarpariaeth Gatholig wedi bod erioed yn yr ardal hon ynghyd ag ysgol cyfrwng | |

| | |
|---|---|
| Cymraeg, ac ni fydd hyn yn newid. Mae cyfle i'r ddwy ysgol gydweithio ar wella'r ddarpariaeth Gymraeg yn yr ysgol Gatholig a gellid datblygu'r ddarpariaeth yn y ddwy ysgol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.<br><br>Bydd y cynnig i gau Ysgol Gatholig Dewi Sant yn yr Wyddgrug yn lleihau nifer y lleoedd dros ben drwy gyfrwng y Saesneg yn ardal yr Wyddgrug, sy'n ardal arbennig o gryf i'r Gymraeg, gyda rhuglder o 20.9%, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae ysgol gynradd Gymraeg lwyddiannus gydag adnoddau ADY yn yr ardal wedi cael buddsoddiad mawr ac mae lle i fwy o ddisgyblion. Mae ysgol uwchradd Gymraeg yn yr ardal hefyd a chan nad yw llawer o'r disgyblion yn ysgol gynradd Dewi Sant yn parhau â'u haddysg yn yr ysgol uwchradd Gatholig yn y Fflint, gallai dysgwyr Cymraeg ail iaith o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg gael eu cefnogi a'u hannog i fynd i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg drwy raglen drochi bwrpasol fel rhan o nodau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.<br><br>Rhan o resymeg y cynnig yw lleihau nifer y lleoedd dros ben yn y rhwydwaith Catholig, sy'n dirywio'n barhaus. Mae addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael i bob dysgwr o fewn pellter teithio rhesymol o'u cartrefi ym mhob cwr o Sir y Fflint, ac mae'r buddsoddiad yn ein rhwydwaith o ysgolion cyfrwng Cymraeg yn parhau, fel y dangosir uchod. | |
| **Meini prawf** | **Effaith Bosibl** |
| **Effaith ar Safonau'r Gymraeg mewn ysgolion Catholig** | **Cadarnhaol** |
| **Eglurhad a Chamau Lliniaru** | |
| Gan y bydd yr ysgol Gatholig newydd arfaethedig ar gyfer disgyblon rhwng 3-18, mae mwy o gyfle i gynyddu nifer y staff sy'n siarad Cymraeg i ymgysylltu mewn gweithgareddau sy'n cynyddu hyder yn y Gymraeg a hyrwyddo diwylliant Cymru yn yr ysgol a'r gymuned. Mae hyn yn unol â nodau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg bod dysgwyr Cymraeg ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (cynradd ac uwchradd) yn cyflawni'r canlyniadau uchaf posibl yn y Gymraeg.<br><br>Yn gyffredinol, mae safon yr addysg Gymraeg yn y rhwydwaith o ysgolion Catholig yn dda, ac mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn cael eu hyrwyddo'n dda, fel y dangosir yn eu hadroddiadau Estyn. Gellid gwneud gwelliannau drwy sefydlu mwy o gydweithio rhwng y rhwydwaith. Gallai'r ysgol newydd arfaethedig hwyluso cyfleoedd a digwyddiadau'n hyrwyddo'r Gymraeg a gellid gweithio gyda'r Esgobaeth Gatholig i wella addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion ffydd.<br><br>Byddai'r ysgol newydd arfaethedig yn cael ei hannog i weithio gyda phartneriaid y Gymraeg, ymgynghorwyr a Medr yn ogystal â'r ysgol Gymraeg gyfagos i ddatblygu a hyrwyddo'r cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Bydd yr ysgol newydd yn elwa o ymgysylltu â'r Swyddog Iaith Gymraeg ar weithgareddau y tu allan i oriau ac ymgysylltiad Ieuenctid mewn ardaloedd a effeithir gan y cynigion i gau. Bydd nodau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i gynyddu faint o Gymraeg a addysgir ym mhob ysgol cyfrwng Saesneg yn berthnasol i unrhyw ysgol newydd. | |

# RHAN N. CASGLIAD

Mae'r Cyngor yn gweithio'n barhaus i fynd i'r afael â'i amcanion CSCA ac yn eu hystyried wrth ddatblygu cynigion yn ein hysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae hyn er mwyn lliniaru unrhyw gamau gweithredu negyddol posibl ar y Gymraeg a pharhau i hyrwyddo a chodi proffil addysg cyfrwng Cymraeg i'n holl ddysgwyr.

Gan fod y cynnig hwn yn ymwneud ag ad-drefnu addysg cyfrwng Saesneg sy’n seiliedig ar ffydd yn y sir, rydym yn cydnabod y bydd cyfraniadau llai at dargedau'r Cyngor. Fodd bynnag, gydag unrhyw ysgol newydd, mae cyfle i gynyddu’r sgiliau Cymraeg yn yr amgylchedd dysgu a’r gymuned ehangach drwy leoliadau cymunedol pwrpasol a hyrwyddo mentrau Cymraeg mewn partneriaeth â’r Esgobaeth Gatholig.